Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Lleu
# Penygroes
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 6RE

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2014**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol wedi’i lleoli ym mhentref Penygroes, sydd oddeutu wyth milltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd.

Mae 176 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 22 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi’u trefnu yn ddau ddosbarth yn ôl eu hoedran ac yn bedwar dosbarth oed cymysg. Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion i’r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae oddeutu 84% o’r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 29% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd llawer uwch na’r ganran genedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae 21% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn debyg i’r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Lleu yn 2013-2014 yw £3,334. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Bro Lleu yn safle 98 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym Mai 2005.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn nhymor y gwanwyn 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd a rhifedd yn gyson dda ar draws yr ysgol;
- disgyblion drwy'r ysgol yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu dysgu;
- safonau ymddygiad ym mhob dosbarth yn rhagorol:
- perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn y pedwar pwnc;
- disgyblion yn meddu ar lais cryf ymhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol;
- profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn cyffroi dychymyg bron pob disgybl ac yn eu hannog i wneud cynnydd da;
- addysgu ac asesu blaengar yn cyfrannu'n gryf at gynnydd pob disgybl; a
- threfniadau pwrpasol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion addysgol a phersonol arbennig.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- gan uwch reolwyr adnabyddiaeth drylwyr o anghenion yr ysgol a gweledigaeth glir ynghylch ei datblygiad;
- gan yr ysgol hanes llwyddiannus o arloesi gyda blaengareddau newydd a chyda dulliau gwahanol o weithio;
- gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o gyflawniadau disgyblion;
- cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen ragorol sydd yn arwain at welliannau pellach;
- adeilad a thir yr ysgol mewn cyflwr da iawn, gyda chyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer pob maes dysgu;
- ystod eang o bartneriaethau yn cyfrannu'n gryf at ddatblygiad yr ysgol; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Gwella sillafu Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Creu mwy o gysylltiadau gydag ysgolion tramor

A3 Cyfoethogi ymhellach yr ardal y tu allan fel adnodd dysgu i'r Cyfnod Sylfaen

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, yn dyblu neu'n haneru rhifau yn gywir, yn adnabod siapiau gwastad a solet ac yn datrys problemau syml gan ddefnyddio gwybodaeth ar graff bloc. Mae disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau mathemategol ar lefel briodol mewn meysydd dysgu eraill.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gwersi mathemateg yn dda ac mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif a geiriau sy'n fwyfwy anodd. Mae dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus, maent yn defnyddio amrediad eang o fesurau safonol gyda manwl gywirdeb ac yn gwneud defnydd pwrpasol o gronfeydd data ar gyfer cofnodi a dehongli data. Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar yr un lefel mewn pynciau eraill, er enghraifft, mewn gwyddoniaeth ymchwiliol.

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau, gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu mewn modd dealladwy ac yn defnyddio geiriau, idiomau a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 5, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu gyda diben amlwg gan ddangos ystyriaeth dda i'r darllenydd, maent gan mwyaf yn treiglo'n gywir ac yn defnyddio amrywiaeth dda o ansoddeiriau ac ymadroddion. Fodd bynnag, er bod cyflawniad disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y ddwy iaith, gan mwyaf, cystal â'i gilydd, mae gwallau sillafu yn amharu ar eu gwaith ysgrifennu Saesneg.

Mae'r ychydig o ddisgyblion di-Gymraeg sy'n ymuno â'r ysgol yn ystod y flwyddyn yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu gallu i ddilyn y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg i safon mamiaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol fedrau meddwl sydd wedi datblygu'n dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu gyda llawer yn gwneud cynnydd rhagorol erbyn dechrau cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n annibynnol ac yn cynllunio a gweithredu eu tasgau gan gymhwyso medrau y maent wedi eu dysgu eisoes i sefyllfaoedd newydd, yn dda iawn. Mae disgyblion o bob oed yn ateb cwestiynau, yn canolbwyntio ar eu tasgau ac yn datrys problemau a gwneud penderfyniadau yn dda. Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 i adfyfyrio ar eu dysgu ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu, yn nodwedd ragorol sy'n galluogi disgyblion i gyflawni safonau uwch.

Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, hwyrddyfodiad i'r ysgol neu ddisgyblion o allu uwch, yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau llythrennedd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Er bod perfformiad llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg, mae wedi gostwng i'r 50% is yn 2013. Mae perfformiad datblygiad mathemategol yn y 50% is yn ystod y ddwy flynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2010 i 2012. Mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o blith ysgolion tebyg, gyda pherfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% is bob blwyddyn. Fodd bynnag, yn 2013, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig ac ar y lefel 5 ar gyfer disgyblion mwy abl yn y 25% uchaf ar gyfer pob un o'r pedwar pwnc.

## Lles: Rhagorol

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w hiechyd a'u lles.

Yn ystod gwersi, mae bron pob disgybl yn weithgar a brwdfrydig, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae safonau ymddygiad yn rhagorol, gyda bron pob disgybl yn cymdeithasu a chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Yn ddiwahân, mae disgyblion yn barchus a chwrtais tuag at staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at greu ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae gallu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i drafod eu harddulliau dysgu a'u tueddiadau dysgu eu hunain mewn ffordd hynod o wybodus yn nodwedd ragorol sy'n deillio ar ddysgu effeithiol iawn.

Trwy grwpiau megis y cyngor ysgol, y grŵp effeithiolrwydd, y grŵp 'Gorau Glas' ac eraill, mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gyfrifoldebau pendant a llais dylanwadol am yr hyn a ddigwydd yng nghymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion berchnogaeth dros eu dysgu ac mae ganddynt ymglymiad cryf i'r ysgol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

Mae disgyblion yr ysgol yn chwarae rhan lawn ym mywyd y gymuned. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn cyngherddau, yn codi arian at elusennau ac wedi sefydlu cyswllt cynhyrchiol â busnes lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cryfhau eu hymglymiad i'w hardal ac yn cyfrannu'n dda tuag at eu datblygiad personol.

Mae presenoldeb yn gyson dda. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% uwch dros y pedair blynedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio clos ac arweiniad clir, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n bodloni anghenion personol ac addysgol disgyblion ac sy'n galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da.

Ar draws yr ysgol, mae ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous yn sbarduno diddordeb disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion o bob oedran i arwain eu dysgu a datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith. Trwy gyd-gynllunio meddylgar, mae staff yn gofalu bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud defnydd ymarferol o'u medrau cyfathrebu, rhifedd, a TGCh ar draws nifer o feysydd cwricwlaidd.

Mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, ynghyd â gofynion statudol eraill, wedi'u hintegreiddio'n gelfydd i gynlluniau gwaith y dosbarthiadau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl hefyd yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn sylweddol.

Mae lle canolog y dimensiwn Cymreig, ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol, yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

Trwy weithgaredd tri grŵp penodol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref o'r angen i arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff. Er bod darpariaeth dda ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang, nid oes gan yr ysgol gysylltiadau cyfredol gydag unrhyw ysgol dramor.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn batrymau iaith da i ddisgyblion ac mae'r berthynas weithio rhwng oedolion a disgyblion yn dda iawn. Mae amcanion dysgu clir i'r holl wersi ac mae athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn effeithiol i fodloni anghenion pob disgybl ym mhob dosbarth. Mae'r holl athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn defnyddio holi medrus i annog disgyblion i feddwl yn feirniadol am destunau ac i ffurfio a chyfiawnhau eu syniadau a'u barnau eu hunain. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar hyrwyddo medrau dysgu ynghyd â'r disgwyliad i ddisgyblion fyfyrio a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, yn nodweddion rhagorol sy'n cyfrannu'n gryf at gynnydd a chyflawniad pob unigolyn.

Mae'r ysgol yn arwain y sector ym maes asesu ar gyfer dysgu. Mae pob un o'r staff yn rhoi adborth llafar clir a mynych i ddisgyblion sy'n eu helpu i ddeall sut i wella'u gwaith. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac yn ofalus ac yn rhoi arweiniad clir ynghylch beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Mae pob athro yn defnyddio system olrhain yr ysgol yn effeithiol iawn i nodi cyflawniadau disgyblion a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd da neu well.

Gydag anogaeth athrawon, mae disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol iawn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn codi safonau a gwella dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio strategaethau blaengar ac effeithiol iawn, megis partneriaid trafod, ar gyfer helpu disgyblion i ddeall eu hunain fel dysgwyr a gwybod sut i ddysgu'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn trafod eu dysgu a'u camau ar gyfer gwelliant yn wybodus fel rhan naturiol o'u haddysg o ddydd i ddydd. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf hefyd yn trafod eu harddulliau dysgu a'u tueddiadau dysgu eu hunain yn ddeallus iawn.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac maent yn rhoi gwybodaeth glir am y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Gwna'r staff yn siŵr bod amgylchedd cynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Trwy weithgareddau corfforol niferus, darperir amrywiaeth eang o gyfleoedd yn ystod oriau ysgol ac yn allgyrsiol, i ddisgyblion gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion wedi ei gydlynu'n dda a'i ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo gwerthoedd uchel yn helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac ar eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

Mae systemau rhagorol ar gyfer hyrwyddo lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r defnydd arbennig a wneir o strategaethau penodol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ethos yr ysgol. Mae'r modd y darparwyd hyfforddiant i rhieni ac y cawsant eu cynnwys yn y broses, yn gryfder sylweddol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn gweithredu'n effeithiol mewn achosion penodol er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol wedi manteisio'n sylweddol ar gyfleoedd i gydweithio gyda nifer helaeth o unigolion ac asiantaethau allanol arbenigol megis, seicolegwyr addysg ac adrannau o'r brifysgol lleol. Mae dylanwad y cynllun hyrwyddo ymddygiad da a luniwyd drwy'r broses hon i'w weld yn gryf iawn yn yr amgylchedd disgybledig a grëir ym mhob dosbarth.

Mae darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae dadansoddiad manwl o ddata perfformiad

yn galluogi athrawon i adnabod yn fuan pa ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac i ddarparu rhaglenni ymyrraeth benodol ar eu cyfer mewn da bryd. O ganlyniad, mae llawer o’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu dysgu gyda phob un yn cael mynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus lle mae’r disgyblion yn mwynhau eu gwersi a’u gweithgareddau ac yn cael eu trin yn gyfartal a chyda pharch. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae’r arddangosfeydd symbylus drwy’r adeilad sydd yn cynnwys enghreifftiau da iawn o waith hanes a chelf, yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at greu amgylchedd chwaethus ac yn adnodd dysgu gwerthfawr i’r disgyblion. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu, sy’n cael eu defnyddio’n effeithiol gan ddisgyblion ac athrawon.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae’r ysgol yn defnyddio pob gofod yn effeithiol er lles disgyblion. Mae’r ysgol yn manteisio’n sylweddol o gael defnyddio neuadd chwaraeon yr ysgol uwchradd ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Er bod tir helaeth o gwmpas yr ysgol, nid yw’r ardal gaeedig y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi’i datblygu i’w llawn botensial.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir gyda lles a deallusrwydd emosiynol disgyblion, ynghyd â datblygiad dysgu ac addysgu blaengar, yn ganolbwynt i'w gweithrediadau. Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn ddeallus iawn ac mae systemau cyfathrebu effeithiol ac ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae’r nodweddion hyn yn rhagorol ac yn cyfrannu’n sylweddol tuag at greu ysgol sy’n hunanfeirniadol ac yn datblygu’n barhaus. Caiff y pennaeth ei chefnogi gan uwch dîm rheoli gweithgar sydd â dylanwad cryf ar safonau ac ansawdd yr addysgu a’r dysgu.

Mae ysgol yn dadansoddi ystod o ddata yn fanwl iawn ac yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer adnabod tueddiadau ar lefel ysgol gyfan, dosbarthiadau ac unigolion. Mae hyn yn galluogi athrawon i adnabod grwpiau penodol o ddisgyblion sydd angen darpariaeth wahaniaethol ac i gryfhau agweddau ar yr addysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion megis y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd arwyddocaol mewn safonau.

Mae parodrwydd yr ysgol i ymgymryd â blaengareddau newydd ac i arloesi â dulliau gwahanol o weithio, megis datblygu dulliau dysgu disgyblion, wedi arwain at safonau rhagorol mewn dysgu ac addysgu. O ganlyniad, caiff yr ysgol yn aml ei defnyddio fel model o arfer dda i ysgolion eraill.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o safonau a chyflawniadau'r disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth dda hefyd o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymhellach. Maent yn sicrhau trefn glir o wirio effeithiolrwydd wrth ymweld â'r ysgol i fonitro'r addysgu a gwahanol agweddau o'r cynllun datblygu, megis asesu, dysgu a rhifedd. Maent yn barod i herio'r ysgol ynglŷn â'r safonau y mae'n eu cyflawni. Mae'r corff llywodraethol yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn dda.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae hunanarfarnu yn rhan naturiol o weithdrefnau beunyddiol yr ysgol ac mae gan arweinwyr a rheolwyr ddarlun a dealltwriaeth ragorol o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

Mae trefniadau hunanarfarnu arweinwyr a rheolwyr yn gynhwysfawr a manwl ac wedi eu hen sefydlu yn gonglfaen ar gyfer adnabod anghenion gwella. Mae hyn yn cael dylanwad uniongyrchol ac effeithiol iawn ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd parhaus a welir mewn safonau a hefyd yn ansawdd ragorol yr addysgu.

Mae rôl monitro'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn sicrhau bod ganddynt adnabyddiaeth glir o gryfderau a mannau gwelliant disgyblion, megis y rhai mwy abl a thalentog. Mae'r rhaglen o arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n dda iawn ar wella safonau addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd rhagorol o ystod eang o wybodaeth a thystiolaeth uniongyrchol i adnabod cynnydd a mannau i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys perfformiad grwpiau o ddisgyblion ac unigolion, deilliannau arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion ac adroddiadau allanol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn fanwl a chynhwysfawr ac mae pob aelod o staff a hefyd y llywodraethwyr yn cyfrannu iddo. Mae'n dangos adnabyddiaeth fanwl a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu er mwyn codi safonau ymhellach. Mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon i unrhyw ganfyddiadau trwy eu cynnwys ar raglenni staff a llywodraethwyr. Mae ffocws clir ar godi safonau cyflawniad a gwella'r ddarpariaeth ac mae hyn yn rhan annatod o gynllunio a gweithredu strategol yr ysgol. Mae'r ysgol yn gallu dangos bod hunanarfarnu wedi arwain at gynnydd gweladwy mewn nifer o feysydd, er enghraifft, ansawdd dysgu ac addysgu a safonau rhifedd.

Mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig mewn hunanarfarnu a monitro, er enghraifft drwy gyfrwng holiaduron. Mae'r rôl flaenllaw a roddir i aelodau'r grŵp gorau glas, y cyngor ysgol, y grŵp gwyrdd a'r grŵp ffitrwydd a lles o ran llunio a monitro'r cynllun datblygu ysgol, yn rhagorol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar ddeilliannau hunanarfarnu, yn ddogfen gynhwysfawr sy'n arwain at welliannau pellach mewn safonau a darpariaeth. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau clir a mesuradwy ac yn diffinio'n fanwl y camau ar gyfer gwella. Mae trylwyredd trefniadau monitro yr uwch dîm rheoli, ynghyd ag effaith sylweddol y cynllun ar ddatblygiad yr ysgol, yn nodweddion rhagorol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r cydweithio cynhyrchiol sydd rhwng yr ysgol ac ystod eang o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.  Er enghraifft, mae’r ysgol wedi cydweithio gyda phrifysgol leol ar brosiect hyrwyddo ymddygiad da a chydag arbenigwyr allanol ar ddatblygu dulliau asesu ar gyfer dysgu.

Mae’r bartneriaeth gref â rhieni yn nodweddiadol o ymrwymiad yr ysgol i gydweithio er mwyn lles y disgyblion.  Ers nifer o flynyddoedd, mae’r ysgol wedi bod yn arloesol yn y modd y mae wedi darparu hyfforddiant rhianta i’w rhieni ac wedi arwain yn lleol a chenedlaethol yn y maes hwn.  Mae’r agwedd hon yn un o brif ragoriaethau ac arbenigeddau’r ysgol sydd wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella'r modd y gall rhieni helpu eu plant gartref.

Mae cysylltiadau cymunedol da yn bodoli gyda llawer o sefydliadau, busnesau lleol a hefyd gyda mudiadau cenedlaethol.  Mae'r rhain yn dylanwadu’n dda ar ansawdd profiadau disgyblion.

Mae’r cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin sydd yn rhannu’r un safle yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo’n ddidrafferth o’r naill sefydliad i’r llall.  Mae’r trefniadau pontio effeithiol gyda’r ysgol uwchradd leol yn helpu disgyblion i drosglwyddo’n hyderus iddi ac i sicrhau bod dilyniant a pharhad mewn dysgu a lles. Mae’r ysgol wedi cydweithio’n agos gydag ysgolion eraill yr ardal i greu deunyddiau darllen cyfoes i ddisgyblion ac i safoni a chymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu gref sy’n cyflawni diwylliant o gydweithio yn yr ysgol a gydag ysgolion lleol.  Caiff athrawon a chymorthyddion fynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus yn lleol ac yn genedlaethol sy’n eu galluogi i ddatblygu arbenigeddau ac i ddysgu medrau newydd.  O ganlyniad, mae staff yn hyddysg yn y datblygiadau diweddaraf ym maes addysg ac yn arwain mewn sawl maes megis asesu ar gyfer dysgu, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae ethos proffesiynol yr ysgol yn seiliedig ar egwyddor o ddysgu fel cymuned ysgol. Mae dull yr ysgol o ymgymryd â gwelliannau ac adnabod grwpiau i ymchwilio, gweithredu ac adolygu cynnydd wedi ei hen sefydlu ac yn cyfrannu’n arwyddocaol at ddatblygiad yr ysgol.  Mae’r ysgol yn cyfrannu at waith nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sydd y tu allan i’w hardal leol.  Er enghraifft, bu’r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion eraill y teulu gyda’r bwriad o godi safonau darllen.

Mae’r trefniadau cynllunio, paratoi ac asesu yn addas a’r staff yn gwneud defnydd da o’u hamser.  Mae trefniadau manwl  ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion.

Mae’r ysgol yn sicrhau dyrannu’r cyllid a’r grantiau yn effeithlon i fynd i’r afael â blaenoriaethau'r cynllun datblygu.  Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro gwariant yr ysgol yn gyson ac yn ofalus ac yn adolygu effaith yr adnoddau ar ddeilliannau dysgu a darpariaeth.

Mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a’r defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 mewn llythrennedd yn debyg i gyfartaledd ysgolion y teulu a’r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol ychydig yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu a’r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2013, roedd y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni ar y deilliant 6 yn debyg i gyfartaleddau ysgolion y teulu yn y ddau faes ac ychydig yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, sef deilliant 5 neu uwch yn y ddau faes dysgu, oddeutu ychydig yn is na pherfformiad y teulu a Chymru gyfan.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013 yn y 50% is yn y ddau faes.

Llwyddodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013. Gyda dros 40% o’r garfan yn cyrraedd y lefel 5 ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion mwy abl yn y pedwar maes, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn rhagori’n sylweddol ar berfformiad ysgolion y teulu a chanlyniadau Cymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio’n sylweddol dros y cyfnod 2010 i 2012. Mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uwch a’r 50% is, gyda pherfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% is bob blwyddyn. Fodd bynnag, roedd perfformiad 2013 ymhlith y 25% uchaf yn y pedwar pwnc.

Nid oedd unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion sydd â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal, ac ar adegau yn well, na gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 97 | 95<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 97 | 95<br>98%<br>92% | 2<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 97 | 96<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 97 | 97<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 97 | 96<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 97 | 97<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 97 | 97<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 97 | 97<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 97 | 92<br>95%<br>91% | 5<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 97 | 97<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 97 | 94<br>97%<br>78% | 3<br>3%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 97 | 90<br>93%<br>84% | 7<br>7%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 54 | 35 | 19 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 54 | 38 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 53 | 37 | 16 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 54 | 37 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 53 | 22 | 28 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 42% | 53% | 2% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 54 | 35 | 18 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 65% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 54 | 37 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 54 | 31 | 20 | 1 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 37% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 52 | 31 | 20 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 54 | 25 | 27 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 53 | 35 | 17 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 49 | 26 | 19 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 53% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 53 | 31 | 20 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 58% | 38% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 54 | 38 | 15 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 70% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 54 | 28 | 20 | 3 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 52% | 37% | 6% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 54 | 33 | 19 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 61% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 48 | 24 | 16 | 1 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 50% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 54 | 30 | 22 | 1 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 56% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 54 | 38 | 14 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 70% | 26% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Edward Williams | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Huw Dylan Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Gethin Huws Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Stella Gryffydd | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.